31 Ionawr 2025

Annwyl

**ATISN 23224**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 3 Ionawr 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- ***Copi o bob gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ar y pryd, Eluned Morgan, at Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, yn ystod mis Tachwedd 2018***

- ***Copi o'r holl ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, y diweddar Aled Roberts, at Weinidog y Gymraeg ar y pryd, yn ystod Chwefror 2019.***

- ***Copi o adroddiad Rhianwen Roberts i Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, y diweddar Aled Roberts, ynghylch newidiadau wnaed i weithdrefnau'r Comisiynydd ar gyfer ymdrin â chwynion am safonau'r Gymraeg. Roedd hyn tua mis Ebrill 2020***

**Ein hymateb**

Mae 6 dogfen ar ffurf pdf wedi'u hatodi i'r e-bost gyda'r llythyr hwn.

1. *Copi o bob gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ar y pryd, Eluned Morgan, at Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, yn ystod mis Tachwedd 2018*

    - Dogfen 1: Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 6 Tachwedd 2018
    - Dogfen 2: Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 26 Tachwedd 2018
    - Dogfen 3: Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 26 Tachwedd 2018
    - Dogfen 4: Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 27 Tachwedd 2018

2. *Copi o'r holl ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, y diweddar Aled Roberts, at Weinidog y Gymraeg ar y pryd, yn ystod Chwefror 2019.*

    Wrth ymateb i'r rhan hwn o'r cais am wybodaeth, rwy'n nodi mai nid y diweddar Aled Roberts oedd Comisiynydd y Gymraeg yn ystod Chwefror 2019. 1 Ebrill 2019 oedd dechrau ei gyfnod fel Comisiynydd. Rydym wedi delio â rhan hwn y cais trwy chwilio am ohebiaeth oddi wrth y Comisiynydd ar y pryd, Meri Huws neu Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, Gwenith Price.

    - Dogfen 5: Llythyr oddi wrth Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, dyddiedig 5 Chwefror 2019 (teitl: Ymchwilio a Gorfodi).
    - Dogfen 6: Llythyr oddi wrth Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, dyddiedig 5 Chwefror 2019 (teitl: Cynllunio ariannol 2019-20).
    - Dogfen 7: Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, dyddiedig 12 Chwefror 2019 (teitl: Banciau'r stryd fawr a'r Gymraeg).
    - Dogfen 8: Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, dyddiedig 12 Chwefror 2019 (teitl: Gwaith Hybu'r Comisiynydd gydag archfarchnadoedd)

3. *Copi o adroddiad Rhianwen Roberts i Gomisiynydd y Gymraeg ar y pryd, y diweddar Aled Roberts, ynghylch newidiadau wnaed i weithdrefnau'r Comisiynydd ar gyfer ymdrin â chwynion am safonau'r Gymraeg. Roedd hyn tua mis Ebrill 2020*

    - Dogfen 9: Adroddiad Annibynnol, dyddiad cyhoeddi 15 Mai 2020. Mae'r ddogfen wedi'i amgáu fel cafodd ei dderbyn gyda peth gwybodaeth wedi'i guddio.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir